Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grwpiau trafod i nodi blaenoriaethau ymchwil ar gymorth emosiynol ac ymddygiadol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth

Mae tîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (brand allanol a changen gyflenwi Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru), yn cynnal Ymarfer Blaenoriaethu Ymchwil sy'n edrych ar gymorth di-dor i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n derbyn gofal a chymorth gyda phroblemau emosiynol ac ymddygiadol. Nod yr ymarfer hwn yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ac ymarferwyr ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i:

- Nodi cwestiynau allweddol, heriau, problemau ac ansicrwydd wrth ddarparu a chael cymorth di-dor i blant a phobl ifanc sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau emosiynol ac ymddygiadol.
- Blaenoriaethu'r 10 cwestiwn pwysicaf ar gyfer ymchwil i fynd i'r afael â nhw;
- Bwydo'r blaenoriaethau i'r ffrydiau cyllido.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth drwy rai grwpiau trafod gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn y grwpiau hyn, bydd tîm y prosiect yn gofyn cwestiynau cyffredin, penagored am y maes pwnc i ddysgu mwy am eich profiadau o geisio cymorth gyda phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, a'r meysydd rydych chi'n meddwl sy'n bwysig. Does dim atebion cywir nac anghywir.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer y prosiect. Byddwn yn dileu data personol cyn ysgrifennu'r adroddiad ac ni fyddwn yn darparu data personol adnabyddadwy i eraill yn Llywodraeth Cymru oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud hynny.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn y prosiect hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio cyllid ymchwil yn y dyfodol.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yw Dr Hannah Bayfield:

Cyfeiriad e-bost: Hannah.Bayfield@llyw.cymru
Rhif ffôn: 0300 025 5595

# Hysbysiad preifatrwydd

**Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?**

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr'.

Rydych wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect hwn drwy eich ymwneud â grŵp fel Voices from Care neu CASCADE Voices, ac mae manylion y grŵp trafod wedi'u rhannu drwy'r grwpiau hynny. Ni chaiff eich manylion cyswllt eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r arolwg yn gofyn am gasglu data personol gennych chi, heblaw am eich llun pan fyddwch yn cytuno i recordiad fideo o'r grŵp trafod.

Hoffem recordio grwpiau trafod am resymau gweithredol. Gallai hyn fod yn recordiad sain neu fideo. Byddwn yn egluro hyn i chi cyn i'r grŵp trafod ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i'r grŵp trafod gael ei recordio. Bydd grŵp trafod ond yn cael ei recordio os yw pob aelod o'r grŵp yn fodlon i hyn ddigwydd. Os caiff grwpiau trafod eu recordio, bydd data personol yn cael eu dileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Caiff recordiadau eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os nad yw trafodaethau'n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu ar ôl y grŵp trafod.

Ar ddiwedd y grŵp trafod, gofynnir i chi a hoffech gymryd rhan mewn gweithdy dilynol yn ymwneud â'r prosiect hwn. Er mwyn cymryd rhan yn y cam gweithdy, mae angen i chi gytuno i gymryd rhan a darparu eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) naill ai: yn uniongyrchol i dîm prosiect Llywodraeth Cymru yn ystod y grŵp trafod; neu drwy'r grŵp a'ch gwahoddodd i'r drafodaeth hon a fydd wedyn yn eu trosglwyddo i dîm prosiect Llywodraeth Cymru. Mae cymryd rhan yn wirfoddol ac os na hoffech gymryd rhan neu gael nodiadau atgoffa, rhowch wybod i'r grŵp neu'r unigolyn cyswllt sydd wedi eich gwahodd. Os byddwch yn dewis cymryd rhan mewn gweithdy dilynol, hoffem wneud recordiad sain neu fideo fel y nodwyd uchod.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd tîm y prosiect yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yna'n ei ddileu o ddata'r prosiect.

**Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?**
Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae prosiectau fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a fydd yn helpu i lywio blaenoriaethau ymchwil a chyllid ar draws gwahanol feysydd diddordeb. Er enghraifft, bydd y wybodaeth a gesglir yn y prosiect hwn yn cael ei defnyddio i sefydlu blaenoriaethau ymchwil ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, fel y gall ariannu prosiectau ymchwil sy'n mynd i'r afael â phrofiadau bywyd go iawn pobl.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol?**
Cedwir yr holl ddata a gasglwyd drwy'r grŵp trafod ar weinyddion diogel, ac mae ffolder wedi'i chreu ar gyfer y prosiect hwn sydd â mynediad cyfyngedig i'r tîm prosiect uniongyrchol yn unig.

Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan mewn gweithdai yn y dyfodol, cedwir eich manylion cyswllt ar wahân i ddata grwpiau trafod.

Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achosion lle roedd amheuaeth o dorri diogelwch data. Os oes amheuaeth o dorri rheolau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd y wybodaeth a gesglir o grwpiau trafod yn cael ei defnyddio i gyfrannu at weithdai yn y dyfodol, a bydd adroddiad prosiect yn seiliedig ar y gweithdai hyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

**Am ba hyd rydym yn cadw eich data personol?**
Bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi'u tynnu eisoes yn cael eu dileu gan Lywodraeth Cymru o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad terfynol, gan gynnwys eich manylion cyswllt os gwnaethoch eu darparu i gymryd rhan mewn gweithdy.

**Hawliau unigol**
O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r prosiect hwn, yn benodol mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hynny;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau);
- Er mwyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau).
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Rhif Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os bydd gennych ragor o gwestiynau ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, cysylltwch â:

Enw: Hannah Bayfield
Cyfeiriad e-bost: Hannah.Bayfield@llyw.cymru
Rhif ffôn: 0300 025 5595

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru.